Chwefror 2010

Awduron: Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygwyr Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi Cyf: 173A2010

# Arolygiad Awdurdod yr Heddlu

# **Awdurdod Heddlu Gwent**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Swyddfa Archwilio Cymru | 4 |
| Arolygwyr Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi | 4 |
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Crynodeb o sgoriau arolygiadau | 7 |
| Pennu cyfeiriad strategol a blaenoriaethau | 7 |
| Craffu ar berfformiad | 9 |
| Ymgysylltu â chymunedau | 11 |
| Gwerth am arian a chynhyrchiant | 13 |
| Y camau nesaf | 16 |
| **Atodiadau** | |
| Cyd-destun | 17 |
| Methodoleg | 20 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon dim ond at ddefnydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Awdurdod Heddlu Gwent fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cwmpasu pob sector o'r llywodraeth, ar wahân i'r rheini a gadwyd yn ôl i lywodraeth y DU.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, fel pennaeth Swyddfa Archwilio Cymru, naill ai'n archwilio cyrff megis Llywodraeth y Cynulliad a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn uniongyrchol, neu, yn achos llywodraeth leol, yn penodi archwilwyr i ymgymryd â'r gwaith.

Ein gwaith yw hyrwyddo gwelliannau fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol sydd wedi'u rheoli'n dda ac sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian.

Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk.

## Arolygwyr Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi

Caiff Arolygwyr Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi eu penodi gan y Goron ar argymhelliad yr Ysgrifennydd Cartref ac maent yn atebol i Brif Arolygydd Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, sef prif gynghorydd plismona proffesiynol yr Ysgrifennydd Cartref. Arolygwyr Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am archwilio a gwella effeithlonrwydd Gwasanaeth yr Heddlu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn annibynnol ar y Swyddfa Gartref a Gwasanaeth yr Heddlu.

Mae prif swyddogaethau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn cynnwys:

- Arolygu ac asesu'n ffurfiol yr holl heddluoedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (yn ogystal â nifer o heddluoedd nad ydynt wedi'u hariannu gan y Swyddfa Gartref), Cyllid a Thollau EM a'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol.
- Cynnal arolygiadau thematig ar draws heddluoedd, rhai ar y cyd â chyrff eraill, yn cynnwys Arolygiaethau eraill y System Cyfiawnder Troseddol.
- Chwarae rhan gynghori allweddol yn y system deiran (y Swyddfa Gartref, y prif swyddog ac awdurdod yr heddlu/Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon), lle y mae pob plaid yn cydnabod ei hannibyniaeth a'i harbenigedd proffesiynol. Mae Arolygwyr Ei Mawrhydi hefyd yn ddolen gyswllt hanfodol rhwng heddluoedd a'r Swyddfa Gartref, ac yn cyfrannu at y broses o benodi i rengoedd uchaf Gwasanaeth yr Heddlu.

Am ragor o wybodaeth am Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, ewch i'n gwefan yn www.hmic.gov.uk.

### Copïau o'r adroddiad hwn

Os oes angen copïau pellach o'r adroddiad hwn arnoch, neu gopi mewn print bras, Braille, ar dâp sain neu mewn iaith ar wahân i'r Gymraeg neu Saesneg, ffoniwch 0845 056 0566.

## Crynodeb gweithredol

1. Mae Awdurdod Heddlu Gwent (yr Awdurdod) yn perfformio'n dda ar y cyfan, ac mae mewn sefyllfa gref i wella ymhellach. Mae'r Awdurdod yn dangos arweinyddiaeth effeithiol, a cheir cydberthynas adeiladol a heriol â'r Heddlu. Caiff uwch swyddogion eu penodi'n ofalus gyda'r nod o wella perfformiad yr heddlu ar ran y cyhoedd. Mae'r Awdurdod yn sicrhau dylanwad a chyfeiriad strategol, gan weithio'n agos â'r Heddlu i bennu blaenoriaethau a chanlyniadau a sicrhau y cânt eu cyflawni. Pan gydnabu'r Awdurdod y pwysau o ran adnoddau a'r pwysau ariannol ar yr Heddlu, yn 2006-07, awdurdododd yr Adolygiad 'Staying Ahead'. Mae hwn yn adolygiad eang ac uchelgeisiol o'r ffordd y darperir plismona yng Ngwent i ddarparu gwasanaethau ansawdd uchel i'r cyhoedd o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Law yn llaw â hyn, mae'r Awdurdod wedi adolygu ac ail-alinio ei strwythurau llywodraethu i hwyluso gwasanaeth yr heddlu effeithiol ac effeithlon.
2. Mae'r Adolygiad 'Staying Ahead' yn ymgorffori dull newydd o blismona yng Ngwent, ac fe'i cynlluniwyd nid yn unig i sicrhau effeithlonrwydd ond hefyd i ddarparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid gydag ethos cymunedol. Cynlluniwyd y strategaeth a'r broses a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth yr heddlu, yn cynnwys y gweithlu. Blaenoriaeth allweddol yr adolygiad yw cyflunio'r Heddlu i ateb yr heriau o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.
3. Mae gan aelodau ddealltwriaeth dda o'u rôl rheoli perfformiad, ac maent yn effeithiol o ran dwyn yr Heddlu i gyfrif. Cefnogir effeithiolrwydd aelodau o ran craffu ar berfformiad gan hyfforddiant a defnydd parhaus o system rheoli perfformiad yr Heddlu. Mae'r Awdurdod yn llywio gwelliant drwy ymwneud yn weithredol â'r broses o bennu targedau, ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o'r angen i wella hyder y cyhoedd. Mae perfformiad yr Heddlu wedi gwella yn erbyn yr Un Targed o ran Hyder. Yn ddiweddar cytunodd yr Awdurdod ar fframwaith rheoli perfformiad newydd sydd â'r nod o wella ei drefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar feysydd perfformiad a chynlluniau allweddol, yn enwedig y Cynllun Plismona lleol.
4. Mae'r Awdurdod wedi datblygu systemau a phrotocolau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a phartneriaethau effeithiol. Mae'n ymrwymedig iawn i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais drwy ymgysylltu â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'r Awdurdod yn cydnabod manteision ymgynghori ac ymgysylltu ar y cyd â'r Heddlu, partneriaethau diogelwch cymunedol, awdurdodau lleol ac eraill. Mae ganddo ddealltwriaeth o amcanion partneriaeth a blaenoriaethau o ran diogelwch cymunedol, ac mae wedi'i gynrychioli'n dda ar grwpiau cymunedol. Mae Aelodau yn rhoi adborth i'r Awdurdod, grwpiau cymunedol a chyfarfodydd y bartneriaeth. Mae partneriaid yn gwerthfawrogi gwaith yr Awdurdod, ei amlygrwydd a'r gwelliannau a gyflawnir ganddo.

5. Mae gan yr Awdurdod hanes cryf o weithredu o fewn ei gyllideb refeniw, ac mae'r manteision sy'n deillio o'r Adolygiad 'Staying Ahead' yn arwain at arbedion sylweddol o ran effeithlonrwydd a system well o baru adnoddau â'r galw. Mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu, ac mae wedi llunio asesiad cynhwysfawr o fygythiadau a risgiau sy'n ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn fwy effeithiol tra'n sicrhau manteision ehangach i'r gymuned. Mae systemau ar waith i reoli risgiau busnes a sicrhau bod y defnydd o adnoddau yn cefnogi blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu ac yn parhau i arddel dull a gweledigaeth a gynlluniwyd i gynnal lefel briodol o wasanaeth i'r cyhoedd, ac mae'n rhagweithiol o ran mynd i'r afael â'r cyfyngiadau ariannol llym sy'n wynebu gwasanaeth yr heddlu yn y dyfodol.

6. Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i gydweithredu a chydweithio â sefydliadau eraill, a gall nodi enghreifftiau o gostau is a darparu gwell gwasanaethau rheng flaen. Mae aelodau a swyddogion yr Awdurdod yn aelodau gweithredol o Awdurdodau Heddlu Cymru, sef corff cydweithredol y pedwar Awdurdod Heddlu yng Nghymru, a gwireddwyd manteision cydweithredu mewn nifer o feysydd allweddol.

7. Mae'r meysydd allweddol i'w datblygu ymhellach fel a ganlyn:

- Adeiladu ar y broses lwyddiannus o weithredu'r Adolygiad 'Staying Ahead', er mwyn cyflawni'r canlyniadau plismona a'r arbedion gwell a ragwelwyd, drwy barhau i ddatblygu dealltwriaeth a mireinio'r dull o weithredu.
- Ehangu'r cynnydd da presennol ar ddarparu gwerth am arian a chynhyrchiant er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r ansicrwydd a'r pwysau ariannol sydd â'r potensial o fod yn ddifrifol yn y tymor canolig i'r hirdymor.
- Atgyfnerthu ymhellach allu aelodau i graffu ar berfformiad yr Heddlu a'i herio, drwy sicrhau bod y wybodaeth a roddir i aelodau yn darparu darlun clir a gwrthrychol o'u blaenoriaethau. Er mwyn atgyfnerthu hyn ymhellach, dylai'r Awdurdod wneud cais bod data sy'n dadansoddi'r cyfeiriad teithio, a gwybodaeth gymharol fel y wybodaeth sy'n ymwneud â'r Grŵp Mwyaf Tebyg a Phob Heddlu yn cael ei ddarparu fel mater o drefn.
- Deall y rhesymau dros y bwlch ystadegol sylweddol o ran lefel boddhad â'r heddlu rhwng cymunedau gwyn a chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a sicrhau bod yr Heddlu yn cymryd camau i unioni'r sefyllfa.

# Crynodeb o sgoriau arolygiadau

| Cwestiynau allweddol | Sgôr |
|---|---|
| • Sut mae awdurdod yr heddlu yn sicrhau bod ganddo ef a'r heddlu yr arweinyddiaeth, yr adnoddau a'r gallu sydd eu hangen i gyflawni canlyniadau gwasanaeth o ansawdd da ar ran y cyhoedd? | 3 |
| • Pa mor effeithiol yw awdurdod yr heddlu o ran craffu a sicrhau bod yr heddlu yn darparu'r gwasanaethau â blaenoriaeth sy'n bwysig i bobl leol? | 3 |
| • Pa mor dda y mae awdurdod yr heddlu yn cyflawni canlyniadau drwy ymgysylltu a llunio partneriaethau â chymunedau i gyflawni ei ddyheadau a'i flaenoriaethau strategol? | 3 |
| • Pa mor effeithiol yw awdurdod yr heddlu o ran sicrhau ffocws clir a chyson ar gyflawni gwerth am arian i sicrhau bargen dda i'r cyhoedd? | 3 |
| **Sgôr gyffredinol** | **3** |

# Pennu cyfeiriad strategol a blaenoriaethau

## Sur y mae Awdurdod yr Heddlu yn sicrhau bod ganddo ef a'r heddlu yr arweinyddiaeth, yr adnoddau a'r gallu sydd eu hangen i gyflawni canlyniadau gwasanaeth o ansawdd da ar ran y cyhoedd?

8. Mae'r Awdurdod yn perfformio'n dda yn y maes hwn. Mae ganddo arweinyddiaeth effeithiol a chydberthynas adeiladol a heriol â'r Prif Gwnstabl a'i staff. Mae'r Awdurdod yn sicrhau dylanwad a chyfeiriad strategol, gan weithio'n agos â'r Heddlu i bennu blaenoriaethau a chanlyniadau a sicrhau y cânt eu cyflawni. Dangosir hyn gliriaf drwy'r Adolygiad 'Staying Ahead', dull eang ac uchelgeisiol o fynd i'r afael â phwysau ariannol a phwysau o ran adnoddau yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod wedi ail alinio ei strwythurau llywodraethu i hwyluso gwasanaeth yr heddlu effeithiol ac effeithlon. Mae'r Awdurdod yn monitro cwynion yn erbyn yr Heddlu ac yn cynnal gwaith hapsamplu o ffeiliau cwynion; ymdrinnir â 61 y cant o'r holl gwynion gan y cyhoedd drwy broses ddatrys leol.

## Cryfderau

9. Mae'r Awdurdod wedi dylanwadu ar gyfeiriad strategol yr Heddlu drwy ddatblygu a gweithredu'r Adolygiad 'Staying Ahead'. Mae'r prosiect hwn wedi cynnwys holl aelodau'r Awdurdod mewn rhaglen rheoli newid sylweddol yn yr Heddlu, gyda'r nod o sicrhau mwy o effeithlonrwydd a gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Nod yr adolygiad oedd diwygio strwythur yr Heddlu, yn cynnwys rolau diwygiedig ar gyfer swyddogion gweithredol a staff cymorth, ac mae wedi arwain at gynnydd yn yr adnoddau gweithredol a ddefnyddir a chynnydd mewn arbedion effeithlonrwydd. Sefydlodd yr Awdurdod fwrdd rhaglen i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r adolygiad. Fel rhan o'r rhaglen weithredu mae'r Awdurdod wedi adolygu ac ail alinio strwythurau ei Bwyllgorau i sicrhau bod ganddo drefniadau priodol ar waith i reoli ei weledigaeth blismona newydd. Nododd Cymdeithasau Staff, yn

cynnwys Ffederasiwn yr Heddlu, UNSAIN a Chymdeithas Uwcharolygwyr yr Heddlu fod yr Awdurdod yn cymryd camau priodol ac yn rhoi arweinyddiaeth drwy gydol yr adolygiad a'r cyfnod gweithredu.

10. Mae'r Awdurdod yn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wrth bennu blaenoriaethau. Caiff blaenoriaethau plismona eu llywio gan Asesiad Strategol yr Heddlu, sy'n cynnwys canlyniadau ymgynghori lleol yn ogystal ag asesiad cynhwysfawr o fygythiadau a risgiau. Mae aelodau'r Awdurdod yn ymgynghori'n rheolaidd â chymunedau lleol i ddiwallu anghenion datblygol yr ardaloedd hynny. Maent yn bwydo'r wybodaeth yn ôl i'r Heddlu drwy gyfarfodydd rheolaidd ag Unedau Plismona Lleol ac mewn cyfarfodydd pennu tasgau ac i'r Awdurdod drwy system ffurfiol o friffio aelodau. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dull radicalaidd ac uchelgeisiol o bennu targedau ar gyfer 2009-10 drwy bennu targedau heriol i gefnogi'r un mesur o ran hyder. Mae gwelliannau perfformiad yn y maes hwn i'w gweld eisoes. Mae'r Awdurdod llawn yn cynnal Diwrnodau Ymwybyddiaeth rheolaidd lle trafodir themâu strategol, perfformiad, ariannol a themâu eraill. Gwahoddir Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), uwch swyddogion, swyddogion gweithredol a siaradwyr allanol i ddod i gyfarfodydd a chymryd rhan.

11. Fel rhan o Awdurdodau Heddlu Cymru (PAW) cafodd yr Awdurdod wobr yn ddiweddar gan yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona (NPIA) am ei strwythurau arolygu a llywodraethu ardderchog ar gyfer cydweithredu rhwng heddluoedd. Mae'r Awdurdod yn weithredol o ran craffu ar weithgarwch yr heddlu mewn perthynas â therfysgaeth, troseddau difrifol a heriau sylweddol eraill i ddiogelwch y cyhoedd (Gwasanaethau Diogelu) ac mae wedi ymrwymo adnoddau ychwanegol i'r maes hwn. Nododd yr asesiad diweddaraf o fygythiadau a risgiau a gynhaliwyd gan Awdurdodau Heddlu Cymru fod y bwlch o ran Gwasanaethau Diogelu wedi lleihau'n sylweddol.

12. Mae gan yr Awdurdod strategaeth gynhwysfawr i sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau a nodwyd yn ei Gynllun Cydraddoldebau Unigol a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, gyda'r rhan fwyaf o'i aelodau yn chwarae rhan yn y gwaith o ymgysylltu â Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau anodd eu cyrraedd. Mae'n ymwybodol o broffil demograffig yr ardal, a thrwy gyfres o gyfarfodydd mae'n cynnwys pobl yn rhagweithiol ar draws y meysydd cydraddoldeb i sicrhau dull hyddysg o wella'r ddarpariaeth o wasanaethau. Er enghraifft, cynhaliodd yr Awdurdod adolygiad o ddiogelwch cyhoeddus ac o ganlyniad i'w ganfyddiadau gweithredodd yr Heddlu i wella gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed, drwy sefydlu Uned Diogelu'r Cyhoedd (PPU) ganolog. Mae gwaith yn mynd rhagddo bellach i wella'r cysylltiadau a llif cudd-wybodaeth rhwng y Timau Plismona yn y Gymdogaeth ac Uned Diogelu'r Cyhoedd. Mae'r Awdurdod yn rhedeg cynllun Ymwelwyr Cadwraeth Annibynnol (ICV) sydd wedi gwella lles carcharorion yn dilyn materion a nodwyd gan ICVau.

13. Mae gan yr Awdurdod strwythurau llywodraethu cadarn ar waith ac mae'n sicrhau bod ei aelodau'n fedrus ac wedi'u hyfforddi i gyflawni eu dyletswyddau ar y cyd a'u dyletswyddau unigol yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r Awdurdod yn cynnal diwrnodau datblygu ac ymwybyddiaeth i ddarparu hyfforddiant rheolaidd o ran ei rôl graffu a llywodraethu, yn cynnwys hawliau dynol, cydweithredu, rôl Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) a Prevent. Mae'r Awdurdod wedi cyflawni statws Buddsoddwyr Mewn Pobl.

14. Mae gan yr Awdurdod broses gadarn ar gyfer penodi prif swyddogion, ac mae wedi helpu i ddatblygu tîm Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu effeithiol i ateb heriau o ran plismona yng Ngwent yn awr ac yn y dyfodol. Mae'n pennu amcanion blynyddol ar gyfer y Prif Gwnstabl ac yn ei ddwyn i gyfrif am eu cyflawni. Drwy ei strwythurau llywodraethu mae'r Awdurdod yn craffu ar Strategaeth Adnoddau Dynol yr Heddlu ac mae wedi cymryd camau i sicrhau bod gan yr Heddlu weithlu cymysg sy'n adlewyrchu'r gymuned leol, er enghraifft mae gan y Cynllun Plismona lleol ddangosyddion perfformiad ar gyfer swyddogion duon a lleiafrifoedd ethnig a menywod. Mae'r Awdurdod wedi herio'r Heddlu yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb, gan arwain at gynnydd is yn y dreth gyngor nag y gwnaeth yr Heddlu gais amdano yn y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf.

15. Mae'r Awdurdod a'r Heddlu yn cadw cofrestr risg ar y cyd; caiff ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn parhau'n gyfoes ac yn diwallu anghenion y ddau sefydliad yn effeithiol. Goruchwylir y broses rheoli risg gan Fwrdd Asesu Risg ar y cyd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdod a'r Heddlu.

### Meysydd i'w gwella

16. Bydd gweithredu'r Adolygiad 'Staying Ahead' yn llwyddiannus yn allweddol i gyflawni gwelliannau o ran darparu gwasanaethau plismona dros y blynyddoedd i ddod. Mae eisoes wedi cyflawni manteision sylweddol i bobl Gwent. Dylai'r Awdurdod adeiladu ar sail y llwyddiant hyd yma i wireddu'r canlyniadau pellach a ragwelir, drwy barhau i ddatblygu dealltwriaeth a mireinio'r dull o weithredu.

17. Dylai'r Awdurdod wneud mwy i roi sicrwydd i'r cyhoedd ei fod yn adolygu cwynion yn effeithiol a bod hyn yn effeithio ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr Heddlu.

## Craffu ar berfformiad

### Pa mor effeithiol yw Awdurdod yr Heddlu o ran craffu a sicrhau bod yr heddlu yn darparu'r gwasanaethau â blaenoriaeth sy'n bwysig i bobl leol?

18. Mae'r Awdurdod yn perfformio'n dda yn y maes hwn. Mae'n helpu i lywio gwelliant drwy ymwneud yn weithredol â'r broses o bennu targedau a chefnogi'r Un Targed o ran Hyder. Mae'r Awdurdod yn dwyn y Prif Gwnstabl a'r Heddlu i gyfrif gyda her effeithiol ac iddi ffocws, sy'n arwain at well perfformiad a chynnydd yn hyder y cyhoedd. Cefnogir effeithiolrwydd aelodau o ran craffu ar berfformiad gan hyfforddiant parhaus a'u gallu i ddefnyddio system rheoli perfformiad yr Heddlu. Er mwyn cryfhau ei rôl graffu ymhellach, dylai'r Awdurdod ofyn i ddata sy'n dadansoddi'r cyfeiriad teithio a chymariaethau â pherfformiad heddluoedd tebyg gael ei ddarparu fel mater o drefn.

### Cryfderau

19. Mae'r Awdurdod yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau plismona yng Ngwent drwy gydberthynas gadarn a phroffesiynol â thîm y prif swyddog. Mae'r Awdurdod yn herio'r Heddlu gyda chwestiynau pendant sy'n dangos dealltwriaeth o'r materion gweithredol, cymunedol a'r materion o ran hyder sy'n effeithio ar blismona lleol yng Ngwent. Mae'r ffaith bod aelodau'r

Awdurdod yn mynd i gyfarfodydd priodol yr Heddlu, yn cynnwys rhai cyfarfodydd rheoli dyddiol a'r Grŵp Adolygu Strategol, yn hwyluso tryloywder mewn meysydd o berfformiad yr Heddlu ar lefel weithredol y gellir craffu arnynt a'u herio yn ddiweddarach ar lefel strategol drwy broses pwyllgor yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn herio'r Heddlu o ran canlyniadau gweithredol, yn enwedig mewn meysydd sy'n achosi pryder i gymunedau lleol a'r materion hynny a fyddai'n cael effaith ar hyder y cyhoedd. Mae'r enghreifftiau diweddar yn cynnwys y cais am ffocws mwy pendant ar ymddygiad gwrthgymdeithasol a herio'r targed a bennwyd ar gyfer troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt.

20. Mae'r Awdurdod yn mabwysiadu dull gweithredol o bennu targedau ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o'r angen i gynyddu hyder y cyhoedd. Er bod hyder y cyhoedd yng Ngwent ymhlith y gwaethaf yn ei grŵp mwyaf tebyg sef 47.3 y cant, cafwyd gwelliant da rhwng gwanwyn 2007 a mis Hydref 2009. Roedd hyn yn golygu mai Gwent oedd yr heddlu a oedd wedi gwella fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Gellir cysylltu'r gwelliant ag asesiad yr Awdurdod o risgiau a manteision yr Un Targed o ran Hyder. Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol i sicrhau y defnyddir ffrydiau ariannu ar gyfer cynyddu hyder y cyhoedd, ac yr eir i'r afael â materion lleol o ran trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd, mae'r Awdurdod yn cydnabod y gellid gwneud gwelliannau pellach, ac mae wedi cynllunio yn unol â hyn.

21. Ar lefel yr Heddlu ac ar lefel Cymru gyfan, mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth glir o'r materion sy'n ymwneud â darparu Gwasanaethau Diogelu effeithiol a chraffu arnynt. Mae'r Awdurdod, drwy Awdurdodau Heddlu Cymru, yn aelod gweithredol o Fwrdd CONTEST Cymru, a sefydlwyd i ymdrin â strategaeth gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU. Mae aelodau sy'n ymwneud â chraffu ar Wasanaethau Diogelu yn cael eu fetio i'r lefel briodol, gan alluogi mynediad i wybodaeth sensitif yn y maes hwn. Mae'r Awdurdod yn chwarae rhan weithredol yng Ngrwpiau Aur yr Heddlu, sef grwpiau rheoli a sefydlwyd i fynd i'r afael a digwyddiadau penodol a'u goruchwylio. Defnyddir cysylltiadau allweddol aelodau yn y gymuned yn effeithiol gyda'r cymunedau penodol a'r partneriaid perthnasol sy'n ymwneud â'r agenda Gwasanaethau Diogelu, yn enwedig mewn meysydd megis trais yn y cartref, diogelu pobl sy'n agored i niwed, Plant a Phobl Ifanc a chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

22. Mae'r Awdurdod yn dangos dealltwriaeth dda o'r Addewid Plismona, sef cyfres genedlaethol o addewidion i'r cyhoedd y mae pob heddlu wedi ymrwymo iddi, ac mae wedi chwarae rhan yn y broses o'i gweithredu. Aseswyd perfformiad yr Heddlu o ran cadw'r Addewid Plismona gan arolygiad diweddar gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi. Fe'i graddiwyd fel 'gweddol', sy'n golygu bod 'perfformiad yn amrywio ac nad yw'n cyrraedd y safon ofynnol'. Fodd bynnag, aseswyd bod cydnabyddiaeth o gyfranogiad yr Awdurdod yn y broses o weithredu a chyfleu'r Addewid yn dda. Mae aelodau'n parhau i wella'u dealltwriaeth o'r Addewid drwy ddiwrnodau Datblygu ac Ymwybyddiaeth. Yn ogystal, caiff perfformiad yr Heddlu mewn perthynas â'r Addewid Plismona ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd gan yr Awdurdod llawn.

23. Cyflwynwyd fframwaith rheoli perfformiad newydd ym mis Gorffennaf 2009, ac mae'n galluogi'r Awdurdod i ddwyn yr Heddlu i gyfrif yn well. Mae'n nodi'r anghenion adrodd mewn meysydd perfformiad allweddol, yn goruchwylio'r gwaith o baratoi'r cynlluniau strategol ac yn monitro perfformiad yr Heddlu yn erbyn y

Cynllun Plismona. Mae pwyllgorau'n monitro perfformiad, yn dadansoddi data ac yn herio tanberfformiad mewn meysydd sy'n berthnasol i'w cylch gorchwyl. Cynhelir trosolwg monitro o'r Cynllun Plismona lleol a hyder gan y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad Strategol. Mae aelodau'n cael gweld a defnyddio system rheoli perfformiad yr Heddlu, sy'n darparu gwybodaeth a data o gronfeydd data amrywiol yr heddlu. Mae hyn yn cynorthwyo'r Awdurdod i adolygu gwybodaeth am berfformiad yn rheolaidd, yn cynnwys digwyddiadau troseddol a gweithgarwch swyddogion unigol. Mae'n galluogi'r Awdurdod i wneud penderfyniadau hyddysg a thryloyw, a chynnig her a dargedwyd i'r Heddlu. Er enghraifft, gwnaeth yr Awdurdod ddwyn yr Heddlu i gyfrif am yr amseroedd ymdrin â galwadau ar gyfer galwadau 999. Arweiniodd yr her hon at newid diwylliant yn ystafell reoli'r Heddlu a gwelliant o ran yr amseroedd ymateb.

24. Rhoddir hyfforddiant a chanllawiau sefydlu da i aelodau sy'n eu paratoi ar gyfer eu rôl rheoli perfformiad. Yn ogystal, mae aelodau a swyddogion yr Awdurdod yn cael adolygiadau datblygiad personol blynyddol. Mae aelodau hefyd yn cymryd rhan mewn diwrnodau ymwybyddiaeth a gwaith adolygu cwynion, ac maent wedi cael hyfforddiant gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

### Meysydd i'w gwella

25. Mae cyfranogiad aelodau ar fyrddau rheoli a byrddau prosiect yr Heddlu yn eu galluogi i herio, craffu a rhoi cyngor arbenigol ac mae'n fuddiol i'r Heddlu a'r Awdurdod. Fodd bynnag, dylid parhau i fonitro hyn yn ofalus i sicrhau bod cyfranogiad swyddogion yn parhau i fod yn strategol.

26. Cefnogir effeithiolrwydd aelodau o ran craffu ar berfformiad gan hyfforddiant parhaus ynghyd â'u defnydd o system rheoli perfformiad yr Heddlu. Dylai'r Awdurdod sicrhau bod y wybodaeth a roddir i aelodau yn rhoi darlun clir a gwrthrychol o'u blaenoriaethau. Er mwyn atgyfnerthu hyn ymhellach, dylai'r Awdurdod wneud cais bod data sy'n dadansoddi'r cyfeiriad teithio, a gwybodaeth gymharol fel y wybodaeth sy'n ymwneud â'r Grŵp Mwyaf Tebyg a Phob Heddlu yn cael ei ddarparu fel mater o drefn.

## Ymgysylltu â chymunedau

### Pa mor dda y mae awdurdod yr heddlu yn cyflawni canlyniadau drwy ymgysylltu a llunio partneriaethau â chymunedau i gyflawni ei ddyheadau a'i flaenoriaethau strategol?

27. Mae'r Awdurdod yn perfformio'n dda yn y maes hwn. Mae wedi datblygu systemau a phrotocolau ar gyfer ymgysylltu a llunio partneriaethau â chymunedau sy'n lleihau achosion o ddyblygu gwaith gyda'r Heddlu. Mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth dda o amcanion partneriaeth a blaenoriaethau o ran diogelwch cymunedol, ac mae wedi'i gynrychioli'n dda ar grwpiau cymunedol. Mae'r aelodau yn cydnabod manteision ymgynghori ac ymgysylltu ar y cyd â'r Heddlu, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, awdurdodau lleol ac eraill. Mae partneriaid yn gwerthfawrogi gwaith yr Awdurdod a'r gwelliannau diweddar a gyflawnwyd ganddo.

## Cryfderau

28. Mae'r Awdurdod yn goruchwylio ymgynghoriadau cymunedol yn effeithiol drwy ei Bwyllgor Darparu Gwasanaethau. Mae'r Protocol Ymgysylltu â Chymdogaethau yn nodi rôl yr Awdurdod yn glir o ran sicrhau bod y gymuned yn cael ei chynnwys yng Ngwent, yn cynnwys adborth. Mae'r protocol yn darparu dull ac iddo ffocws a methodoleg adrodd i aelodau ei defnyddio, ac mae ar gael i'r cyhoedd drwy wefan yr Awdurdod. Defnyddiwyd *'Mae Eich Barn yn Cyfrif*, sef y dull ymgynghori cymunedol, yn llwyddiannus am nifer o flynyddoedd, ac mae'n bwydo'n uniongyrchol i broses cynllunio strategol yr Awdurdod. Yn ogystal, mae aelodau, drwy strwythur pwyllgorau'r Awdurdod, yn rhoi adborth rheolaidd o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn y gymuned. Er enghraifft, cododd yr Awdurdod y pryderon a fynegwyd gan bobl leol ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyrru niwsans. Yna ailgyfeiriodd yr Heddlu adnoddau i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Arweiniodd hyn at adborth cadarnhaol gan y gymuned. Mae'r Awdurdod yn rhoi adborth i gymunedau a rhanddeiliaid drwy gyfarfodydd Partneriaid a Chymunedau Ynghyd (PACT) a chyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae gwybodaeth hefyd ar gael drwy gylchlythyrau lleol a gwefannau'r Awdurdod a'r Heddlu.

29. Mae aelodau a swyddogion yr Awdurdod yn ymwneud â'r gwaith o ymgysylltu â chymunedau ac yn cael hyfforddiant ar weithio mewn partneriaeth. Mae aelodau'n ymgysylltu'n dda â'r Timau Plismona yn y Gymdogaeth, ac yn mynd i sesiynau briffio rheolaidd gyda chomanderiaid yr Unedau Plismona Lleol. Mae'r Awdurdod yn rhoi adborth a gwybodaeth i'r cyhoedd yng Ngwent am flaenoriaethau a chamau gweithredu plismona lleol drwy PACT a chyfarfodydd a digwyddiadau cymunedol eraill, yn ogystal â thrwy gylchlythyr rheolaidd a ddosberthir i gartrefi yn ardaloedd PACT. Mae'r Awdurdod hefyd yn mynd i'r afael â phryderon cymdogaethau drwy gydweithio â'r Heddlu, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r sector gwirfoddol. Mae Cytundeb Sector Gwirfoddol Caerffili wedi helpu i godi proffil yr Awdurdod yn yr ardal ddaearyddol honno, ac mae wedi galluogi gwell mynediad i sefydliadau amrywiol. Yng Nghasnewydd bu lleihad yn y problemau sy'n gysylltiedig ag alcohol ar nos Sadwrn, ac o ganlyniad mae pobl ifanc yn teimlo'n fwy diogel bellach.

30. Chwaraeodd yr Awdurdod ran flaenllaw yn y gwaith o greu'r Ymgyrchoedd a Gyfarwyddir gan y Gymuned a'r Gymdogaeth (CANDO) yng Ngwent. Cynlluniwyd CANDO i fynd i'r afael ag ardaloedd lle ceir trosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus drwy nodi problemau lleol a fyddai'n effeithio ar gymunedau, busnesau lleol a sefydliadau eraill. Gweithiodd yr Awdurdod a'r Heddlu mewn partneriaeth â'r gymuned, gan ddatblygu dulliau o leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd penodol ac roedd adborth cymunedol yn sgîl sawl menter CANDO yn gadarnhaol iawn, yn benodol yn ardaloedd Rhymni, Pengam, Pontllanfraith a Phenyrheol.

31. Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais drwy ymgysylltu yn effeithiol â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys ymgysylltu â Fforwm Cam-drin yn y Cartref Sir Fynwy, ac mewn perthynas â diogelwch cymunedol, ymgysylltu â phobl ifanc o'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol mewn cydweithrediad â Stonewall Cymru.Mae cyfranogiad swyddogion yn gadarn, yn enwedig o ran cyflafareddu ar draws y

cymunedau Somalïaidd ac Asiaidd yng Nghasnewydd a chyfranogi mewn grwpiau cynrychioliadol cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, er enghraifft grwpiau Menywod Asiaidd a grwpiau arweinwyr Cymunedol Casnewydd. Mae'r ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Unigol yn enghraifft o arfer nodedig, gan ymestyn allan i sawl grŵp amrywiol a defnyddio Grŵp Cynghori Annibynnol yr Heddlu. Hefyd bu'r Awdurdod yn weithgar iawn o ran mynd i'r afael â'r anghymesuredd sy'n gysylltiedig â Stopio a Chwilio, gwaith sydd bellach yn cael ei rannu ag awdurdodau heddlu eraill.

32. Mae aelodau'r Awdurdod yn dangos dealltwriaeth fanwl o broffil cymdogaeth yr ardal. Mae adborth o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau sy'n agored i niwed yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn weladwy i'r gymuned ac yn dylanwadu ar gamau gweithredu i wella canlyniadau ar gyfer pobl leol. Mae enghreifftiau o ddylanwad yr Awdurdod yn cynnwys diwrnod ymwybyddiaeth Nam ar y Golwg a gafodd adborth da gan gyfranogwyr, cynhadledd troseddau casineb anabledd a hyfforddi staff canolfan alwadau i ymdrin â throseddau casineb.

### Meysydd i'w gwella

33. Mae angen i'r Awdurdod sicrhau cyfranogiad effeithiol gan ei aelodau mewn gwaith partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae wedi cydnabod yr angen i wella yn y maes hwn, ac mae rhaglen ddatblygu, a gefnogir gan brotocol y bartneriaeth, yn mynd rhagddi.

34. Mae'r bwlch o ran lefelau boddhad â'r heddlu rhwng dioddefwyr gwyn a dioddefwyr duon a lleiafrifoedd ethnig yn lleihau. Fodd bynnag, erys gwahaniaeth sylweddol mewn lefelau cyffredinol boddhad y cyhoedd rhwng cymunedau gwyn a chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae angen i'r Awdurdod ddeall y rhesymau dros y bwlch hwn a sicrhau bod yr Heddlu yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r bwlch.

## Gwerth am arian a chynhyrchiant

### Pa mor effeithiol yw Awdurdod yr Heddlu o ran sicrhau ffocws clir a chyson ar werth am arian i sicrhau bargen dda i'r cyhoedd?

35. Mae'r Awdurdod yn perfformio'n dda yn y maes hwn. Mae'r Awdurdod a'r Heddlu wedi llunio asesiad risg cynhwysfawr o fygythiadau a risgiau sy'n ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn fwy effeithiol tra'n sicrhau manteision ehangach i'r gymuned. Mae gan yr Awdurdod hanes cryf o weithredu o fewn ei gyllideb, ac mae'r manteision sy'n deillio o'r Adolygiad 'Staying Ahead' yn arwain at arbedion sylweddol o ran effeithlonrwydd a system well o baru adnoddau â'r galw. Mae systemau ar waith i reoli risgiau busnes a sicrhau bod y defnydd o adnoddau yn cefnogi blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Awdurdod yn dylanwadu ar y ffordd y mae heddweision a staff cymorth yn cael eu defnyddio, ac mae'n cynnwys pobl leol yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r Awdurdod yn cyfranogi, yn cefnogi ac yn annog cydweithredu a chydweithio ledled Cymru, ac mae wedi cyfrannu at nifer o fentrau arfer da sydd wedi sicrhau

effeithlonrwydd ac arbedion gyda photensial posibl at y dyfodol. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu ac yn parhau i arddel dull a gweledigaeth a gynlluniwyd i gynnal lefel briodol o wasanaeth i'r cyhoedd, ac mae'n rhagweithiol o ran mynd i'r afael â'r cyfyngiadau ariannol llym y bydd gwasanaeth yr heddlu yn eu hwynebu yn y dyfodol.

## Cryfderau

36. Mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos â'r Heddlu a'i gymuned i ddefnyddio adnoddau yn briodol a sicrhau gwerth am arian. Mae penderfyniadau allweddol ar y defnydd o adnoddau'r heddlu yn seiliedig ar asesiadau hyddysg o fygythiadau a risgiau a siart llif cynllunio strategol ac ariannol ar y cyd. Mae'r asesiad strategol yn ystyried gwerthusiad Awdurdodau Heddlu Cymru o Wasanaethau Diogelu, ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau partneriaid megis Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Lleol. Caiff blaenoriaethau cymunedol ac adborth y cyhoedd o ymgynghoriadau eu hystyried wrth gynllunio adnoddau.

37. Mae'r Adolygiad 'Staying Ahead' wedi arwain at baru adnoddau gweithredol yn well i'r galw. Mae gan yr Awdurdod brosesau systematig ar waith ar gyfer asesu a mesur manteision 'Staying Ahead'. Mae Tîm y Rhaglen, o dan gyfarwyddyd y Dirprwy Brif Gwnstabl, yn cadw cofrestr barhaus o'r canlyniadau a gyflawnwyd a chanlyniadau arfaethedig. Cyflwynir adroddiadau ar y rhain i Awdurdod yr Heddlu drwy ddiweddariadau ffurfiol i gyfarfodydd yr Awdurdod Llawn ac i'r Pwyllgor Archwilio ac Adnoddau fel rhan o'r broses o bennu cyllideb. Mae gan gyllidebau a rhaglenni cyfalaf sail gadarn ac maent wedi'u cynllunio i gyflawni blaenoriaethau strategol. Mae gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau.

38. Mesurwyd manteision 'Staying Ahead' ac mae'r canlyniadau penodol yn cynnwys: cynyddu lefelau hyder ac arbedion effeithlonrwydd a ragwelir o £14.4 miliwn rhwng 2009 a 2013. Mae hyn tua £3.1 miliwn yn uwch na tharged effeithlonrwydd a chynhyrchiant y Swyddfa Gartref. Bu cynnydd o 22 y cant yn yr adnoddau a ddefnyddir ar gyfer plismona yn y gymdogaeth, a dyrannwyd mwy o adnoddau i blismona'r ffyrdd. Mae'r Awdurdod wedi ystyried y posibilrwydd o leihau'r gyllideb ymhellach, ac mae wedi cynnwys y senario hwn yn ei brosesau cynllunio.

39. Mae gan yr Awdurdod hanes cadarn o weithredu o fewn ei gyllideb a pharhaodd hyn yn 2008-09. Hefyd cyflawnodd yr Awdurdod a'r Heddlu arbedion effeithlonrwydd o £4.4 miliwn yn 2008-09, gan ragori ar ei darged effeithlonrwydd o £1.5 miliwn. Mae'r Awdurdod yn parhau i ddangos trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli ei adnoddau, ac mae ar y trywydd cywir i gyflawni ei dargedau effeithlonrwydd ar gyfer 2009-10.

40. Mae gan aelodau'r Awdurdod ddealltwriaeth dda o broffil cymunedol Gwent a pha adnoddau sydd eu hangen ar yr heddlu i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'r cyhoedd. Mae mynegeion demograffig ac amddifadedd a chronfa ddata rheoli cymdogaethau ar gael ar gyfer aelodau. Datblygwyd proffiliau cyflenwad a galw i nodi'r galw a ddisgwylir yn y dyfodol ar adnoddau'r heddlu yng Ngwent.

41. Mae gan yr Awdurdod strategaeth glir i hyrwyddo trefniadau cydweithio ac mae'n cydweithio â sefydliadau eraill, yn cynnwys Awdurdodau Heddlu Cymru, ac yn hyrwyddo cydweithio o'r fath. Mae'r Awdurdod yn gyfranogwr gweithredol iawn

yng ngwaith Awdurdodau Heddlu Cymru, a gwireddwyd manteision cydweithredu mewn nifer o feysydd allweddol. Mae'r mentrau cydweithio yn cynnwys Tarian, sef tasglu Cymru gyfan sy'n ymdrin â throseddau cyffuriau, ac Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgiaeth Cymru (WECTU). Mae'r mentrau hyn a mentrau eraill wedi gwella'r canlyniadau gweithredol ar gyfer holl awdurdodau Cymru a manteision ehangach i'r gymuned.

42. Mae'r trefniadau cydweithredu ledled Cymru gyfan yn gwella canlyniadau darparu gwasanaethau a gwerth am arian i'r cyhoedd. Er enghraifft, datblygwyd menter diogelwch ar y ffyrdd strategol o'r enw 'Y Maniffesto' i wella trefniadau plismona'r ffyrdd yng Nghymru fel rhan o strategaeth drafnidiaeth Cymru. Mae Awdurdodau Heddlu Cymru hefyd wedi llunio fersiwn ddrafft o strategaeth gaffael ar y cyd i Gymru gyfan gyda'r nod o fanteisio i'r eithaf ar rym prynu a sicrhau costau prynu is ar gyfer gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru. Gwerthuswyd trefniadau cydweithio Awdurdodau Heddlu Cymru i nodi'r manteision i'r awdurdodau unigol o ran ymgyrchoedd ac adnoddau, a chyflawnwyd tua £18 miliwn o arbedion effeithlonrwydd yn 2009.

43. Mae'r Awdurdod yn hen law mewn perthynas â threfniadau cydweithredol a ddarperir gan Gwerth Cymru. Gwariant a wnaed gan Went o dan fframweithiau Gwerth Cymru yn 2008-09 oedd y mwyaf o'r pedwar Heddlu yng Nghymru, sef tua 39 y cant o'r cyfanswm. Arbedwyd £130,000 yn ystod 2008-09 yn sgîl defnyddio trefniant Gwerth Cymru. Mae'r Awdurdod yn parhau i gael budd o waith Grŵp Caffael Rhanbarthol De-Orllewin Lloegr a Chymru. Y maes pwysicaf o waith diweddar fu'r contract Gwasanaethau Dadansoddi Fforensig lle cydweithiodd 14 o heddluoedd.

44. Mae'r Awdurdod yn cydweithio â phartneriaid eraill yn cynnwys Trafnidiaeth Casnewydd, Cyngor Tref Cas-gwent, y Comisiwn Coedwigaeth a Choleg Gwent ac mae wedi cyflawni £236,000 o gyllid ychwanegol, a fydd yn darparu ar gyfer saith Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) ychwanegol. Mae'r Awdurdod wedi cynnwys y partneriaid yn y gwaith o leoli'r unigolion hyn yn benodol er mwyn gwella canlyniadau i gymunedau Gwent. Ceir cydweithio pellach ag Awdurdod Heddlu De Cymru i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol ar gyfer y ddau Awdurdod am gost ostyngedig, a chydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen i ddatblygu contract TGCh ar y cyd i wella technoleg symudol.

## Meysydd i'w gwella

45. Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran darparu gwerth am arian a chynhyrchiant, ond dylai adeiladu ar hyn a llywio effeithlonrwydd drwy'r sefydliad cyfan fel rhan o 'Staying Ahead'. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r ansicrwydd a'r pwysau ariannol a allai fod yn ddifrifol yn y tymor canolig i'r hirdymor.

46. Dylid gwella trefniadau ar gyfer monitro mentrau gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Dylai'r Awdurdod sicrhau bod unrhyw fentrau cydariannu yn y dyfodol gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cynnwys adborth rheolaidd, cyflwyno adroddiadau ar dargedau, cerrig milltir a'r manteision a gyflawnwyd.

## Y camau nesaf

47. Disgwyliwn i Awdurdod Heddlu Gwent fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad hwn, a sicrhau gwelliant parhaus wedi'i dargedu. Wrth wneud hynny, dylai'r Awdurdod ystyried y gwaith cynllunio gwelliant, cefnogi ac ymyrryd ehangach a nodwyd yn fframwaith perfformiad a chyd-destun plismona'r Swyddfa Gartref.
48. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol interim yn fuan ar sail canfyddiadau'r 10 arolygiad cyntaf. Bydd yn nodi materion thematig sy'n berthnasol i bob awdurdod heddlu, gan helpu i sicrhau gwelliant a rhannu arfer da. Dylai'r Awdurdod gyfeirio at yr adroddiad hwn a'i ddefnyddio wrth lunio'i waith cynllunio gwelliant.

Atodiad 1

# Cyd-destun

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynullaid Cenedlaethol) yn dilyn refferendwm yn 1997. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i benderfynu sut y caiff cyllideb San Steffan ar gyfer meysydd a ddatganolwyd ei gwario a'i gweinyddu, ac mae ganddo gyfrifoldeb am amaethyddiaeth, datblygu economaidd, addysg, iechyd, tai, diwydiant, llywodraeth leol, gwasanaethau cymdeithasol, twristiaeth, trafnidiaeth a'r Gymraeg. Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad) yw cangen weithredol y Cynulliad Cenedlaethol. Er nad yw plismona wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Swyddfa Gartref yn gweithio i leihau troseddau mewn amgylchedd gweinyddol a pholisi unigryw, gyda sefydliadau a phartneriaid gwahanol, ac yn aml gyda threfniadau a lefelau ariannu gwahanol, o gymharu â Lloegr.

## Gwent

Mae Heddlu Gwent yn gyfrifol am blismona ardal o dros 600 milltir sgwâr (155,600 hectar) yn cynnwys dinas Casnewydd, a nifer o drefi mawr yn cynnwys Trefynwy, Caerffili, y Coed Duon, Cwmbrân, Pont-y-pŵl, Glynebwy a chymunedau'r cymoedd. Mae ardal yr heddlu hefyd yn cynnwys ardal wledig sylweddol, yn bennaf yn Sir Fynwy.

Yr ardaloedd awdurdod lleol yn ardal Heddlu Gwent yw: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen.

Mae gan ardal Gwent boblogaeth breswyl o ychydig dros 560,000. Dengys data Cyfrifiad 2001 fod cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynrychioli 4.8 y cant o boblogaeth Casnewydd, 1.14 y cant o boblogaeth Sir Fynwy, a llai nag un y cant o boblogaeth Tor-faen, Blaenau Gwent a Chaerffili.

Mae Gwent yn ardal o wrthgyferbyniadau sylweddol; mae'n cynnwys ardaloedd trefol megis Dinas Casnewydd, lleoliad Cwpan Ryder yn 2010, hen gymunedau glofaol ac ardaloedd gwledig eang megis Dyffryn Wysg a Dyffryn Gwy. Casnewydd yw'r ganolfan fasnachol gydag economi liw nos fywiog. Mae Caerffili, Tor-faen a Blaenau Gwent oll yn manteisio ar grantiau arbennig a chyllid Ewropeaidd, ac maent yn amlwg ar fynegai amddifadedd lluosog Llywodraeth y Cynulliad. Mae Sir Fynwy yn ardal wledig eang gyda phoblogaeth wasgaredig. Mae Casnewydd a Sir Fynwy hefyd yn gymwys ar gyfer arian Ewropeaidd.

## Awdurdod yr Heddlu

Awdurdod Heddlu Gwent yw un o'r 43 o awdurdodau'r heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gyfrifol am sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer Gwent, ac am ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif. Mae'r Awdurdod yn cefnogi'r Heddlu yn ei ddyhead i 'gynyddu lefel hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth plismona a ddarperir gan Heddlu Gwent'.

Mae gan yr Awdurdod 17 o aelodau, yn cynnwys naw cynghorydd a ddewiswyd gan Gydbwyllgor o'r awdurdodau lleol sy'n cynrychioli cyfansoddiad gwleidyddol yr ardal blismona ac wyth aelod annibynnol. Mae aelod annibynnol yn cadeirio'r Awdurdod. Gwasanaethir aelodau gan wyth aelod o staff a arweinir gan y Prif Weithredwr.

Mae Cynllun Plismona'r Awdurdod ar gyfer 2009/2012 yn cynnwys chwe blaenoriaeth allweddol: Plismona yn y Gymdogaeth a Phartneriaeth, Plismona Ymatebol, Ymchwilio i Droseddau, Cymorth Gweithredol, Cymorth Busnes a Datblygu Gwasanaethau. Mae hefyd yn cynnwys copi o'r Addewid Plismona.

Cyllideb refeniw Gwent ar gyfer 2009-10 yw £132 miliwn, yn cynnwys grantiau'r llywodraeth o £90 miliwn. Y gyllideb gyfalaf yw £3 miliwn.

## Awdurdodau Heddlu Cymru

Mae'r pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru - sef Dyfed Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru - yn aelodau o Gymdeithas Awdurdodau'r Heddlu, ac maent hefyd yn aelodau o'u corff cynrychioliadol eu hunain, Awdurdodau Heddlu Cymru. Mae ei strwythur sefydliadol yn adlewyrchu strwythur awdurdod yr heddlu, gyda chadeirydd ac aelodau, swyddog gweithredol a thîm gweithredol.

Prif nodau Awdurdodau Heddlu Cymru yw:

- ystyried materion sy'n effeithio ar blismona yng Nghymru a gweithredu arnynt, yn enwedig y materion hynny sydd o dan reolaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- dylanwadu ar yr agenda blismona ar lefel genedlaethol ar ran awdurdodau heddlu a chymunedau lleol yng Nghymru;
- cefnogi awdurdodau'r heddlu o ran sicrhau gwasanaethau plismona effeithlon ac effeithiol ledled Cymru;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o anghenion plismona a rôl a chyflawniadau awdurdodau'r heddlu; a
- chynnal a hyrwyddo egwyddorion atebolrwydd lleol a phlismona drwy gydsyniaeth.

Yn 2008, drwy Awdurdodau Heddlu Cymru, cytunodd y pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru i ariannu'r rhaglen gydweithredu Cymru gyfan i hwyluso trefniadau cydweithio gan heddluoedd ar wasanaethau a rennir a mentrau trawsffiniol. Ym mis Ebrill 2009 penododd Awdurdodau Heddlu Cymru Ddirprwy Brif Gwnstabl Cymru gyfan, a fu'n Ddirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys yn ei swydd flaenorol. Mae Awdurdodau Heddlu Cymru yn gyfrifol am bob agwedd ar wasanaethau gweithredol a chymorth yng Nghynllun Plismona Cenedlaethol Cymru.

## Yr Heddlu

Mae gan Heddlu Gwent 1,440 o heddweision, 139 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, 856 o staff yr heddlu a 189 o Gwnstabliaid Cynorthwyol. Mae pencadlys yr Heddlu yng Nghroesyceiliog yng Nghwmbrân. Mae Grŵp y Prif Swyddogion yn cynnwys y Prif

Gwnstabl, y Dirprwy Brif Gwnstabl, un Prif Gwnstabl Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddu.

Yn archwiliadau diweddaraf Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi o'r Heddlu, aseswyd bod Gwent yn cyrraedd y safon ar gyfer rheoli troseddau mawr, Plismona yn y Gymdogaeth a datblygu gwaith canolbwyntio ar ddinasyddion.

Atodiad 2

## Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyd ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi o'r arolygiad o Awdurdod Heddlu Gwent a gynhaliwyd ym mis Hydref 2009.

Ym mis Gorffennaf 2009, cyhoeddodd y Comisiwn Archwilio ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi Fframwaith Arolygu Awdurdod yr Heddlu.

Mae'r fframwaith arolygu yn cynnwys pedwar maes asesu:

- **Pennu cyfeiriad strategol a blaenoriaethau** – Sut y mae Awdurdod yr Heddlu yn sicrhau y gall ef a'r heddlu feddu ar yr arweinyddiaeth, yr adnoddau a'r gallu sydd eu hangen i gyflawni canlyniadau gwasanaeth o ansawdd da ar ran y cyhoedd?
- **Craffu ar ganlyniadau perfformiad** – Pa mor effeithiol yw Awdurdod yr Heddlu o ran craffu a sicrhau bod yr heddlu yn darparu'r gwasanaethau â blaenoriaeth sy'n bwysig i bobl leol?
- **Cyflawni canlyniadau drwy ymgysylltu a llunio partneriaethau â chymunedau** – Pa mor dda y mae Awdurdod yr Heddlu yn cyflawni canlyniadau drwy ymgysylltu a llunio partneriaethau â chymunedau i gyflawni ei ddyheadau a'i flaenoriaethau strategol?
- **Sicrhau gwerth am arian a chynhyrchiant** – Pa mor effeithiol yw Awdurdod yr Heddlu o ran sicrhau ffocws clir a chyson ar werth am arian i sicrhau bargen dda i'r cyhoedd?

Defnyddiodd tîm yr Arolygiad dystiolaeth amrywiol i lunio barn yn erbyn pob un o'r pedair thema asesu. Roedd hyn yn cynnwys dogfennaeth allweddol a ddefnyddir gan awdurdod yr heddlu i redeg ei fusnes, cyfweliadau, grwpiau ffocws, arsylwadau a gwaith profi realiti gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol awdurdod yr heddlu.

Sgoriwyd pob thema asesu ar wahân ar raddfa o 1 i 4 a chaiff y sgoriau eu cyfuno i sgôr gyffredinol. Mae'r sgoriau o 1 i 4 ar gyfer pob thema yn cynrychioli'r disgrifyddion canlynol o berfformiad.

| Sgôr | Disgrifydd o berfformiad | Adroddiadau'r cyhoedd |
|---|---|---|
| 1 | Nid yw awdurdod yr heddlu yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y thema hon. | Yn perfformio'n wael |
| 2 | Mae awdurdod yr heddlu yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion sylfaenol ar gyfer y thema hon gyda rhai eithriadau a meysydd o bryder. | Yn perfformio'n ddigonol |
| 3 | Mae awdurdod yr heddlu yn rhagori ar y gofynion sylfaenol ar gyfer y thema hon. | Yn perfformio'n dda |
| 4 | Mae awdurdod yr heddlu yn rhagori'n sylweddol ar y gofynion sylfaenol ar gyfer y thema hon. | Yn perfformio'n ardderchog |

Cefnogwyd yr arolygiaethau ar y cyd gan arolygydd cymheiriad achrededig ac uwch swyddog o awdurdod yr heddlu yn ystod yr arolygiad hwn.

Rydym wedi integreiddio sicrwydd ansawdd drwy gamau cynllunio, gwaith maes a chamau adrodd yr arolygiad. Yn arbennig, sicrhawyd cysondeb a chadernid barn y timau arolygu cyn cyhoeddi'r adroddiad gan banel sicrhau ansawdd o'r arolygiaethau ar y cyd. Ymunodd cymheiriad â'r cymwysterau priodol â'r panel sicrhau ansawdd fel sylwedydd.

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiolchgar am gefnogaeth a chydweithrediad Awdurdod yr Heddlu, ei staff a'i swyddogion yn ystod yr arolygiad.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk